# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Storio Carbon Deuocsid (Diwygio a Phŵer i Addasu) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **29 Gorffennaf 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Storio Carbon Deuocsid (Diwygio a Phŵer i Addasu) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**
- Cyfarwyddeb yr UE 2009/31

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n dod o fewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli; mae'r darpariaethau hyn yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn.

<u>Deddfwriaeth Ddomestig</u>
- Rheoliadau Storio Carbon Deuocsid (Trwyddedu etc) 2010
- Rheoliadau Storio Carbon Deuocsid (Terfynu Trwyddedau) 2011
- Rheoliadau Storio Carbon Deuocsid (Mynediad at Seilwaith) 2011

**Effaith yr OSau mewn perthynas â Chymru:**
O ran effaith yr OSau yng Nghymru, mae'n gwneud mân ddiwygiadau technegol i'r rheoliadau canlynol i'r graddau y maent yn gysylltiedig â diogelu'r amgylchedd. Byddant yn mynd i'r afael â diffygion a chyfeiriadau nad oes bellach eu hangen sy'n gysylltiedig â storio carbon deuocsid, a hynny yn sgil y ffaith bod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae'r OSau (pan fônt yn berthnasol i Gymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fo gofyn inni ystyried a chywiro nifer digyffelyb o ddarnau deddfwriaeth o fewn amserlen dynn gan ddefnyddio adnoddau cyfyngedig, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod yn gofyn i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan ar gyfer nifer mawr o offerynnau statudol.

Mae Rheoliadau 2018 yn trosglwyddo swyddogaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig, lle y bo angen gwneud hynny er mwyn atgynhyrchu pŵer a gaiff ei arfer gan y Comisiwn

Ewropeaidd, a fyddai'n ei gwneud hi'n bosibl i atodiadau technegol gael eu haddasu gan y DU er mwyn adlewyrchu datblygiadau gwyddonol a thechnegol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**Diben y diwygiadau**

Bydd Deddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018 yn gosod deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE yn ei lle i sicrhau ei bod yn gweithredu'n gywir ac yn effeithlon pan fydd y DU wedi ymadael â'r UE.

Mae'r diwygiadau hyn yn mynd i'r afael â methiannau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r offeryn yn diwygio darpariaethau a fydd, er enghraifft, yn dod yn amhriodol neu'n ddibwrpas.

Ar ôl ymadael, ni fyddai cyfraith berthnasol yr UE, os na chaiff ei diwygio, yn gweithredu'n gywir i'r fath raddau fel y gellid bwrw amheuaeth ar y pwerau i barhau i gyflawni swyddogaethau statudol.

Mae'r offeryn hwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol i sicrhau bod mesurau diogelu a fframweithiau rheoliadol yn cael eu cynnal a'u cadw, ac yn parhau i weithio yn yr un modd pan fydd y DU wedi ymadael â'r UE.

Mae'r OS a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/statutory-instruments/MamodFeY

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Mae hyn yn unol â’r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.